

## **Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 14 - 17 Ionawr 2019**

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt

### **Yn bresennol**

Lionel Walford – Cadeirydd  
Steve Hughson – Aelod Annibynnol  
Peter Rees – Aelod Annibynnol  
Darren Williams – FUW  
Paddy McNaught - UNITE  
Ivan Monckton – UNITE

Helen Snow – Geldards

Ryan Davies – Llywodraeth Cymru (Rheolwr y Panel)  
Dan Ricketts – Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)  
Rebecca Philp – Llywodraeth Cymru

### **Ymddiheuriadau**

Will Prichard – NFU Cymru  
Spencer Conlon – Llywodraeth Cymru

### **Eitem 1 – Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi bod dau ymddiheuriad wedi dod i law.

### **Eitem 2 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd**

Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn amlinellu'r newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2019 ac roedd ymateb wedi dod i law yn nodi y byddai'r Gweinidog yn parhau i weithio gyda'r Panel.

### **Eitem 3 – Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 13 (29 Hydref 2018)**

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Trafodwyd y Camau Gweithredu a godwyd yn y cyfarfod diwethaf hefyd:

- Roedd tri diweddariad o ran y Crynodeb Gweithredol ar y newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2019, Statws Cyflogaeth a moderneiddio'r Gorchymyn o 2020 ymlaen i gyd ar agenda'r cyfarfod hwn.

- Hysbysebu Ymgynghoriadau'r Dyfodol - trafododd y Panel amryfal opsiynau ar gyfer hysbysebu ymgynghoriadau gymaint â phosibl o ran Gorchmynion Cyflogau yn y dyfodol. Nodwyd ei bod yn hollbwysig bod ymatebion yn dod i law gan bobl sy'n pennu cyflogau gan ddefnyddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol a'r ffordd rwyddach o wneud hynny yw drwy hysbysebu yn y wasg ffermio. Trafodwyd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a Chyfnodolyn Blynnyddol y Sioe Frenhinol hefyd. Cytunwyd y byddai'r costau hysbysebu yn cael eu harchwilio a byddant yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.

#### **Eitem 4 – Diweddariad ar y Crynodeb Gweithredol ar y Newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2019**

Dosbarthwyd i'r Panel gopi drafft o'r Crynodeb Gweithredol a fydd yn cael ei ychwanegu at Ganllawiau 2019. Trafodwyd a ddylid cyhoeddi Datganiad i'r Wasg ynghylch y newidiadau ac os felly, pryd? Nododd cynrychiolydd cyfreithiol y Panel mai'r adeg arferol i wneud hynny fyddai pan fydd y Gorchymyn yn dod i rym (1 Ebrill 2019 yn yr achos hwn). Bydd y protocol o gyhoeddi datganiad i'r wasg yn cael ei archwilio a'i adrodd yn ôl i'r Panel.

#### **Eitem 5 – Diweddariad ar y Papur ar Statws Cyflogaeth**

Cyflwynwyd fersiwn ddiweddarach o'r Canllawiau ar Statws Cyflogaeth y Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru i'r Panel. Ni fu'n bosibl llunio siart lif fel y trafodwyd yng Nghyfarfod 13. Fodd bynnag, mae rhestr wirio y gall cyflogwyr ei defnyddio i ganfod y statws cyflogaeth cywir. Cytunwyd bod hyn yn well nag unrhyw beth a fu ynghynt ac er y byddai o hyd achosion na fyddai'n cyd-fynd â'r cylch gwaith, bydd y rhestr wirio yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion. Rhannodd y Panel eu barn ar eiriad y ddogfen - gall y pwnc fod yn "ddeddfol" iawn ond rhaid ei gadw mor syml â phosibl i bobl ei defnyddio. Cytunwyd y byddai'n cael ei aralleirio mewn manau a'i ddosbarthu i aelodau'r Panel cyn gynted â phosibl i'w gyhoeddi ar 1 Ebrill 2019.

#### **Eitem 6 – Diweddariad ar Foderneiddio'r Gorchymyn o 2020 ymlaen**

Yn dilyn Cyfarfodydd 12 a 13 o ran y data gwaelodlin ystadegol sy'n ofynnol ar gyfer Gorchmynion yn y dyfodol, cadarnhawyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gydag Ystadegwyr Adrannol Llywodraeth Cymru ac nid oedd y gwaith hwn wedi symud yn ei flaen. Nid yw'n bosibl cael yr ystadegau sy'n ofynnol o fewn Llywodraeth Cymru.

Nododd y Panel ei siom a'i bryderon ynghylch y diffyg data a thrafodwyd yr opsiynau posibl eraill o ran sut y mae modd cael gafael ar yr ystadegau hyn. Pwysleisiwyd bod y data yn ofynnol er mwyn ymgymryd ag Aseiad Effaith Rheoleiddiol i gytuno ar strwythur newydd ar gyfer cyfraddau cyflogau ac mae hynny'n hanfodol er mwyn moderneiddio'r Gorchymyn.

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod DEFRA yn casglu llawer mwy o wybodaeth drwy eu Harolwg o Fusnesau Ffermio yn Lloegr. Cytunwyd y dylid cysylltu â DEFRA i gael copi o'i arolwg.

Rhoddwyd diweddariad hefyd ar ddatblygiad Gorchymyn 2019. Gan mai bach iawn o newidiadau oedd i Orchymyn 2018, bwriedir iddo ddod i rym ar 1 Ebrill 2019.

### **Eitem 7 – Unrhyw Fater Arall**

Nid oedd unrhyw fater arall wedi codi.

### **Eitem 8 – Camau Nesaf**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 15 Ebrill 2019.

Wedyn daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.